

**BALCHDER BRO**

CHI SY'N ARWAIN – GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

PRIDE IN PLACE

LED BY YOU – BACKED BY UK GOVERNMENT

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd

Cyfarfod:

Dyddiad:

Amser:

Lleoliad:

Bwrdd Ein Rhyl**Dydd Gwener 24 Gorffennaf 2026****3.00pm-5.00pm****Canolfan Ieuenctid y Rhyl (Teams ar gael ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)**

Aelodau'r Bwrdd Yn bresennol:	Craig Sparrow, Cadeirydd		Gill German, AS		Justin Bell, Is-gadeirydd	
	Y Cyngorydd Jason McLellan		Y Cyngorydd Barry Mellor		Nadeem Ahmed	
	Sue Nash		Julie Pierce		Emma Watling	
	Linzi Jones		Jonathan Pico		Leonie Wainwright	
	Simon Keeting		[Sedd wag,] AoS			
Ymgynghorol/Cefnogae th:	Peter James		Natalie Nolan		Tony Ward	
	Janine Downing		Martin Williams		Cefnogaeth y Rhaglen	
Gwahoddwyd:	Helen Johnson		Mike Jones			
Ymddiheuriadau:	I'w gweld mewn coch					

1.	Croeso Ymddiheuriadau a Datgan Cysylltiadau Eglurodd Rheolwr y Rhaglen fod yr Is-gadeiryddion wedi cyfnewid a byddai Justin Bell ymgymryd â swydd yr Is-gadeirydd. Cafodd y Bwrdd wybod fod y Cadeirydd wedi ymddiheuro a'r Is-gadeirydd fyddai'n Cadeirio'r cyfarfod hwn. Agorodd yr Is-gadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb. Rhoddwyd ymddiheuriadau fel y dangosir mewn coch uchod.	Y Cadeirydd	3.00pm 5 munud
----	---	----------------	--------------------------

	Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan gan y rhai oedd yn bresennol.		
2.	Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd - 19 Mehefin 2026 Cadarnhawyd cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2026 fel cofnodion gwir a chywir o'r cyfarfod a chawsant eu cymeradwyo'n ffurfiol ar ôl cael eu cynnig a'u heilio.	Y Cadeirydd	5 munud
3.	Gwybodaeth Budd-ddeiliaid y Rhyl Cyflwynodd Gyngor Sir Ddinbych brosiect Pentref Plant y Cyngor er gwybodaeth. Mae prosiect Pentref y Plant yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych. Cafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd er gwybodaeth yn unig ac i sicrhau bod Bwrdd Ein Rhyl yn ymwybodol o brosiectau sy'n cael eu cynnal ar hyd a lled y Rhyl gan fudd-ddeiliaid eraill y Rhyl. Cyflwynodd CSDd gynigion yn ymwneud â £5.5m o danwariant o gynllun amddiffyn rhag llifogydd arfordirol Llywodraeth Cymru, sydd yn rhaid ei wario ar brosiect sydd yn union yn ymyl, neu'n gysylltiedig â gwaith amddiffyn rhag llifogydd. Fe nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prosiect yma ac mae wedi cymeradwyo defnyddio'r cyllid at y diben hwn. Nid yw hwn yn gyllid newydd. Nid cyllid Ein Rhyl yw hwn. Cyflwynwyd cysyniad i ailddatblygu ardal Pentref y Plant, a'r rhesymeg yw: • Cael gwared ar rwystrau rhwng canol y dref a'r traeth, sef neges a gafwyd drwy ymgysylltu â'r gymuned dros nifer o flynyddoedd (h.y. i ailgysylltu canol y dref a'r traeth) • Cael gwared ar rywbeth sydd yn ddolur i'r llygaid ac sydd â chynllun gwael. • Mynd i'r afael â phroblemau cynnal a chadw costus a pharhaus gyda'r strwythur presennol. • Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phryderon diogelwch.	CSDd	30 munud

	Nod y cynnig yw: • Creu gofod digwyddiadau hyblyg cyhoeddus. • Gwellu'r cysylltiad rhwng y Stryd Fawr, Marchnad y Frenhines a'r traeth. • Cefnogi digwyddiadau yn y dyfodol a chyfleoedd twristiaeth. • Darparu porth sydd yn ddeniadol a chroesawgar. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â thanwariant o gynllun amddiffyn rhag llifogydd, a bydd yn rhaid cadw at gytundebau (ac maent yn rhan ohonynt) a lofnodwyd ar ddechrau'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd. Gan ei fod yn cael ei ariannu gan y tanwariant o gynllun amddiffyn rhag llifogydd, mae'n rhaid gwario'r arian yn fuan. Mae yna hefyd ffafriaeth fod y prosiect hwn yn cael ei ddarparu ar yr un pryd â phrosiectau Cronfa Adfywio Lleol (h.y. gwelliannau i Barth Cyhoeddus a thŵr y cloc yng nghanol y dref), gan y bydd yn lleihau'r amhariadau i'r Rhyl a gellir manteisio ar effeithlonrwydd costau drwy gynnal y prosiectau yma ar yr un pryd gan eu bod yn gysylltiedig yn ddaearyddol. • Cafodd y Bwrdd hefyd wybod i gyd-fynd â phrosiectau Cronfa Adfywio Lleol (ac felly cael effeithlonrwydd cost) mae'r prosiect hwn wedi'i glustnodi i ddechrau ym mis Mawrth/Ebrill 2027 a byddai'n dod i ben tua mis Tachwedd 2027. Fe fydd ymgynghoriad cyhoeddus ar brosiect Pentref y Plant yn cael ei gynnal ddiwedd yr haf. Diolchodd aelodau'r Bwrdd i Gyngor Sir Ddinbych am rannu'r wybodaeth am y prosiect yma gyda nhw. <u>Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd yr angen am gyfathrebu'n nad yw hwn yn cael ei ariannu gan Ein Rhyl.</u> <u>Dylai'r ohebiaeth hefyd ddweud fod cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu ac ni ellir ei gyfeirio at flaenoriaethau cymunedol eraill.</u> Er mai er gwybodaeth yn unig oedd y cyflwyniad, roedd yn gyfle i'r Bwrdd drafod agweddau amrywiol o'r promenâd. Fe awgrymwyd cynigion dylunio gwell a/neu gwblhau Pentref y Plant fel y bwriad gwreiddiol.		
--	---	--	--

	• Roedd cynigion dylunio angen cael eu cadw o fewn y gyllideb ac mae glanhau a hyblygrwydd y gofod yn sbardunau allweddol i ailgysylltu canol y dref a'r traeth. Pwysigrwydd cadw atyniadau sy'n addas i deuluoedd a chymeriad traddodiadol glan y môr i ddenu ymwelwyr. • Fe nodwyd fod y promenâd yn y Rhyl yn ardal eang ac felly gall hefyd ymdopi ag atyniadau neu weithgareddau ar gost isel/dim cost lle y bo'n briodol ynghyd ag ardaloedd eraill o'r prom. Defnyddio'r Arena Digwyddiadau yn hytrach na chreu gofod newydd. • Nid yw'r isadeiledd angenrheidiol yn yr Arena Digwyddiadau ac ni ellir defnyddio'r cyllid yma yn yr ardal honno. Mae pobl eisiau promenâd agored ac nid adeiladau. • Fe soniwyd am leoliadau poblogaidd gyda phromenâd clir. Fe drafodwyd hefyd fod gan rai llefydd promenadau clir iawn ond yn aml maent yn llawn pobl sydd yn cerdded a beicio gyda chysylltiad hawdd â siopau. Cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad y sector preifat drwy gonsesiynau a digwyddiadau dros dro. • Trafodwyd consesiynau symudol a digwyddiadau unigol a dywedodd rhai o Aelodau'r Bwrdd fod rhai agweddau ar gyfer mentrau preifat, ac nid i'r Cyngor eu darparu. Fe nodwyd fod lleihau uchelgeisiau a defnyddio deunyddiau cryf yn briodol ar gyfer amgylchedd halen y môr a byddai hynny'n cael ei ffafrio yn hytrach na deunyddiau cost is, llai cryf ar draws ardal eang sydd yn dirywio yn gyflymach ac yn dechrau edrych yn hyll. • Trafodwyd a chydabuwyd fod y cyllid hwn ar gael yn sgil gwaith caled Cyngor Sir Ddinbych yn cwblhau'r prosiect amddiffyn rhag llifogydd o fewn y gyllideb ac felly yn galluogi gwerth ychwanegol i gael ei ychwanegu i'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes penodol hwn. Cam Gweithredu: Gwahodd CSDd yn ôl i'r Bwrdd i'w diweddarau am brosiectau canol y dref/cloc y tŵr/promenâd er gwybodaeth yn unig.		
--	---	--	--

4.	Y wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu Cyflwynodd Gill German AS, grynodedb o waith ymgysylltu AS a wnaed ar draws y Rhyl mewn cysylltiad â'r rhaglen yma. Mae ymgysylltu'n parhau ond mae dadansoddiad hyd heddiw yn parhau i ddangos themâu cyson. Mae amgylchedd y traeth a'r arfordir a chynhesrwydd pobl ar draws y gymuned yn parhau i gael ei adlewyrchu fel agweddau cadarnhaol o'r Rhyl. Mae prif flaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn cynnwys: • Yr angen am ganol y dref sydd yn ffynnu. • Gwelliannau mewn twf economaidd a chefnogaeth i fusnes. • Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc. • Gwella diogelwch cymunedol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. • Gwella twristiaeth a hunaniaeth arfordirol. Roedd digwyddiadau ymgysylltu diweddar yn boblogaidd ac roeddynt yn gadarnhaol. Cafodd y Bwrdd wybod fod dadansoddiad ymgysylltu hefyd yn gyson â'r mewnbwn a gasglwyd drwy weithgareddau ymgysylltu'r Bwrdd. • Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd cynnal tryloywder a gwella ymwybyddiaeth gyhoeddus o weithgareddau'r Bwrdd. • Fe soniodd y Bwrdd am gasglu adborth gan ymwelwyr, sydd yn rhan bwysig o'r Rhyl yn nhymor y gwyliau. Cafodd y Bwrdd wybod fod adborth yn cael ei gasglu gan ymwelwyr a pherchnogion feddianwyr. Fe fydd yr adborth yn cael ei ddadansoddi ar wahân i adborth gan breswylwyr er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw wahaniaethau mewn tueddiadau yn yr adborth. • Mae cyfleoedd i ymgysylltu sydd i ddod yn cynnwys marchnadoedd awyr agored, digwyddiadau cymunedol a rhagor o estyn allan wedi'i dargedu. Nwyddau priodol i gael eu hystyried.	Bwrdd cyfan	30 munud
----	--	-------------	----------

	Mae'r Bwrdd yn parhau i ymgysylltu a chael adborth drwy arolygon, digwyddiadau wyneb yn wyneb, ymgyrchoedd ar Facebook ac estyn allan yn gymunedol. Cam Gweithredu: Digwyddiadau pwysig ym mis Awst i gael eu rhannu eto gydag Aelodau'r Bwrdd er mwyn iddynt fod yn bresennol. CWBLHAWYD		
5.	Adnoddau'r Bwrdd Gadawodd Rheolwr y Rhaglen yr ystafell ar gyfer yr eitem hon. Cyflwynwyd cynnig i recriwtio dau swyddog dynodedig i gefnogi cyflawni rhaglen y Bwrdd a gweithgareddau ymgysylltu parhaus. Mae'r cynnig yn cynnwys: - Dwy swydd cyfnod penodol am ddwy flynedd gyda CSDd gan weithio ar flaenoriaethau'r Bwrdd. - Rheolwr Rhaglen Adfywio i fod â chyfrifoldebau goruchwyllo a rheoli. - Amcangyfrif o gyfanswm y gost fyddai £267,500. Roedd aelodau yn cydnabod pwysau capasiti cyfredol a'r angen am adnoddau dynodedig i gefnogi cyfathrebu, ymgysylltu, datblygu prosiect a chyflawni'r rhaglen. Gofynnodd Aelodau am gael bod yn rhan o'r broses recriwtio a chael gweld y swydd-ddisgrifiadau. Camau Gweithredu: - Swydd-ddisgrifiadau drafft i gael eu rhannu gydag aelodau'r Bwrdd. CWBLHAWYD - Trefniadau panel recriwtio i gael eu cytuno. - Cyfarfod dilynol ar Teams os oes angen. CWBLHAWYD - ddim ei angen. - Y broses recriwtio i ddechrau ym mis Medi.	CSDd	30 munud
6.	Amserlen y Rhaglen Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni'r rhaglen ar gyfer gweddill y flwyddyn. Disgwylir y bydd ymgysylltu yn parhau tan ddiwedd mis Awst. Bydd y Cynllun Adfywio yn cael ei ddiweddarau gyda'r holl ymgysylltu a gynhaliwyd a'i gyflwyno i Lywodraeth y DU ym mis Medi. Disgwylir y bydd y Llywodraeth yn rhoi cymeradwyaeth yn ystod hydref/gaeaf 2026 a bydd y Bwrdd	Rheolwr Rhaglen	10 munud

	yn paratoi i symud i gyflawni yn nes ymlaen eleni neu yn 2027. Mynegodd y Bwrdd bwysigrwydd sicrhau tryloywder ar y prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Ein Rhyl er mwyn sicrhau bod gan y gymuned fynediad at y wybodaeth honno.		
7	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyflwyno cyfleoedd ariannu i'r 5 tref, gydag opsiynau arian cyfatebol posibl yn cefnogi mentrau celfyddydol, diwylliannol a lles ar gael. Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i fynychu Digwyddiad Rhwydweithio Balchder Bro yng Nghaerdydd ar 24 Medi, a byddai costau'n cael eu talu drwy gyllid capasiti. Bydd tri chyfranogwr o Ein Rhyl yn ymuno â'r digwyddiad.	Rheolwr Rhaglen	5 munud
8.	Unrhyw Fater Arall Dim.	Y Cadeirydd	5 munud
9.	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Ieuenctid y Rhyl 18 Medi 2026, 3-5pm Diwedd y cyfarfod		5.17pm